

RECORDERS' NEWSLETTER



Cylchlythyr y Cofnodwyr 33 (Hydref 2014)

Wele rifyn mawr y Nadolig a'r Calan i chi. Nid dyna oedd y bwriad yn wreiddiol. Carwn yn gyntaf ymddiheuro am yr oedi cyn gyrru'r Cylchlythyr allan atoch. Mis Gorffennaf roedd y dyddiad cyhoeddi i fod yn wreiddiol, yna fis Medi - a dyma ni yn y flwyddyn newydd! Diolch am eich amynedd ac am y nifer fawr o gofnodion ac adroddiadau ardderchog.

Gwenyn ac eraill

Mae fy ngardd i i'w gweld yn un dda ar gyfer gwenyn. Rwyf fi'n digwydd byw lle mae glaswelltiroedd, a lleiniau ac ymylon glas a glaswelltog blodeuog i'w cael. Mae'r planhigion llysieuol hen-ffasiwn yn fy ngardd yn gyfoethog o ran neithdar a phaill. Hoffech chi dyfu border addas i weny yn 2015? Dyma fy nghyngor i. Ewch i gasglu blodau ar ymyl y ffordd y tu allan i'm tŷ (neu'ch tŷ chi, o ddewis), a chasglu'r hadau, a'u hau yn gywir fel y byddech chi'n hau unrhyw had llysieuol. Dyna i chi flodau gwyllt o ffynonellau lleol yng ngwir ystyr y gair, yn fy marn i. Mae tri chlwstwr mawr o'r bengaled yn fy ngardd i, yn tyfu mewn gwahanol raddfeydd o heulwen. O ganlyniad i hyn, byddant yn dechrau blodeuo ar wahanol adegau graddedig dros yr haf. Bu'r bengaled yn blodeuo'n helaeth eleni, o ganol Gorffennaf tan yn gynnar ym mis Medi. O ganlyniad i gyfoeth helaeth y blodau, roedd yr ardd yn heidio â phryfed hofran a gwenyn.

Creaduriaid sy'n enwedig o hoff o flodau'r bengaled oedd y **gwenyn torri dail**. **Byddant yn bwrw ati i'w claddu'u hunain ym mlodau'r bengaled, gan gasglu'r paill ar ochrau is eu habdomenau. Cefais hyd i ddwy rywogaeth ohonynt yn yr ardd. Y *Megachile centuncularis*, sy'n llai eu maent, yw'r rhai mwyaf cyffredin. Mae'n treulio misoedd yr haf yn cludo dail i dyllau nythu yn ochr is y ffenestri dwbl, ac yn y wal ffrynt. Mae'r *Megachile willughbiella* yn llawer iawn mwy o ran maint. Gwenyn hardd iawn, gyda chorff gwyn, yw'r rhywogaeth hon: dyma'r tro cyntaf iddi ymgartrefu yn fy ngardd i. A chan fod gwenyn torri dail mor niferus yma, dyna pam mae gwenyn y gog, *Coelioxys inermis*, yma hefyd. Cwt pigog sydd gan yr un fenywaidd. Bydd hi'n chwilio am nythod gwenyn torri dail yn y wal ffrynt, iddi hi gael doddi wy. Yn ogystal â hyn, mae blodau'r bengaled yn denu ffrwd o weny unig, gyda'u cyrff bach a'u cynffonau hir. Gyda chryn ofal,**

mi lwyddais i ddal rhai, a darganfod fod yma ddwy rywogaeth mewn gwirionedd: ***Lasioglossum calceatum*** a ***Lasioglossum albipes***. Yn gynnar ym mis Awst dyma ryw wenynen anferthol yn cyrraedd. Roedd ei thoracs mor goch â chadno, a'i habdomen o liw du sgleiniog. Mi dyngwn i mi glywed y glep wrth iddi lanio ar y bengaled. *Andrena thoracia* oedd y wenynen hon, mae'n debyg, gwenynen unig o deulu'r *Andrena*. Mae nifer fawr o'r rhain, bron i gyd yn fychan ac yn flewog. Maent yn rhyfeddol o drawiadol, ac roeddwn i wrth fy modd fod rhywogaeth mor brin wedi cyrraedd fy ngardd.

Ym mis Mehefin, unwaith eto mi welais wenyn corniog gwrywaidd yn fy ngardd. Creadur anhygoel yw'r ***Eucera longicornis***, sy'n pori ar **bysen y coed neu ffacbys chwerw (*Viccia orobus*)** yn bennaf. Gwenynen brin yw hon, yn rhoi lle i ni ymfalchio. Mae'i hantênâu fel cyrn hir yn ymestyn yn ôl dros ei chorff. Byddech chi'n ei hadnabod ar unwaith. Rhaid fod ganddi gytref bridio ar ryw lan heulog yn weddol agos.

Yn gynnar yn y gwanwyn, pan fydd **llyisiau'r ysgyfaint** yn blodeuo, bydd si uchel yr ***Anthophora plumipes*** i'w chlywed yn swnian ymhlith y blodau llysiuol. Gwenynen yn debyg i'r gacynen yw *Anthophora*. Mae'r rhai benywaidd yn flewog ac yn loywddu. Mae'r rhai gwrywaidd llawn mor flewog, ond o liw oren llwytgoch. Pryfyn llawn mor unigryw, trawiadol, a nodedig yw'r **gardwenynen (*Anthidium manicatum*)**, Yn ddiweddarach yn yr haf, bydd y gwefl-llyisiau yn y border yn eu denu'n ddi-ffael. Ar yr un pryd, dyna'r **cacwn cynffon ruddem** yn rhedeg i fyny ac i lawr y wal ffrynt yn chwilio am nythod gwenyn turio i'w parasitio.

At beth mae'r holl sôn am wenyn yn arwain? Yn un peth, fe ddengys fod fy nhypyn gardd fach gyffredin i, gyda'i blodau hollol gyffredin, yn llawn gwenyn, gwenyn meirch (picwn). Ym mosaig blodeuog y caeau, lleiniau, cloddiau, glannau, a bencydd ymyl ffordd cyfagos yn bennaf mae'r rhywogaethau hynny yn byw a nythu, ac yn ymgartrefu yno. Dangos y maent mor gyfoethog yw adnoddau blodau gwyllt y fro. Byddaf yn hoffi meddwl weithiau taw er mwyn rhoi pleser a mwynhad i mi y byddant yn dod i'm gardd. Ledled y wlad, mae nifer o'r rhywogaethau hyn yn anghyffredin, neu'n brin hyd yn oed. Mae'r ffaith eu bod yn galw heibio i'm gardd yn rhoi i mi welediad pwysig i mewn i amrywiaeth gwenyn, a phicwn yn yr amgylchedd lleol. Bob blwyddyn, mi fyddaf yn adnabod rhywogaethau sydd wedi hedfan dros wal yr ardd. Rwy'n amau y bydd yr un peth yn wir am sawl gardd arall mewn sawl rhan arall o Rionda Cynon Taf. Rwy'n amau fod ffawna gwenyn, a phicwn yn gyfoethog iawn. Dyma i chi esiampl arall o sut y gall cofnodi mewn gerddi roi i ni glemiau gwerthfawr am bwysigrwydd ein bioamrywiaeth leol.

Tywydd

Dyma sut y bu Mark Evans yn myfyrio yn ystod misoedd cynnar 2014, ar dywydd y gaeaf oedd newydd fynd heibio. *'Mae'r gaeaf gwlypaf erioed wedi'n gadael ni. Gobeithio'n wir y cawn wanwyn normal, a haf gyda'r mwyaf hafaidd erioed. Mae gan bawb hawl i freuddwydio, debyg? Yn gydnaws â phob ardal arall o Ynys*

Prydain, fe gofnododd fy ngardd fach i ei gaeaf gwlypaf erioed - er nad yw'r cofnodion yn f'achos i yn mynd yn ôl ymhellach na 1994. Ond er i'r gaeaf ar ei hyd dorri pob record, nid dyna oedd yr hanes gyda misoedd unigol Rhagfyr, Ionawr, a Chwefror. Yr ail wlypaf oedd pob un, er i ddau ohonynt ddod yn eithaf agos. Ond dyma beth oedd yn hynod, sef fod tri mis eithafol o wlyb yn dilyn ei gilydd, y naill ar ôl y llall. Fel arfer, os cawn ni fis eithafol, fe fydd yr un sy'n dilyn yn fwy arferol, neu bydd y pendil yn siglo i'r pen eithaf arall. Serch hynny, o tua chanol Rhagfyr i ganol mis Chwefror yn fwy neu lai, cawsom ddilyniant o 66 o ddiwrnodau olynol gyda glawiad mesuradwy (0.20 neu'n fwy) o lawiad. Mae hyn llawn mor hynod â'r cyfansymiau'r glawiad. Daeth y dilyniant hwnnw i ben gyda diwrnod o lawiad ysgafn, yn is ac yn llai na 0.20mm, ond yn dal i adael ei ôl yn y mesurydd glaw. Wedi hynny fe ddaeth dilyniant di-dor arall, o 12 o ddiwrnodau o lawiad mesuradwy, hyd at ddiwedd y mis a diwedd y gaeaf hefyd.

Gyrrodd Marcus Middlehurst gyfres arall o gofnodion rhagorol o'r tywydd ar gyfer ei gartref yn Nhŷ Newydd, Treherbert. Dengys ei ffigurau ef mor bell roedd pendil y gaeaf wedi siglo'n ôl o eithafion y gaeaf. Maent yn darlunio'n glir mor hynod sych oedd ein blwyddyn, yn enwedig rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf. Mae mis Awst yn amlwg i'w weld yn wlyb. Rwy'n cofio meddwl ar y pryd fod diwedd yr haf wedi dod. Ond dyna ni wedyn yn cael mis Medi oedd yn eithriadol o sych, a thwym.

Cyfanswm glawiad mis Mawrth 177mm (glawiad uchaf o 30mm ar yr 2ail)

Cyfanswm glawiad mis Ebrill rain 219mm (glawiad uchaf o 57mm ar y 6^{ed}), gyda 17 o ddyddiau sych! (Dim cofnod ar gyfer mis Ebrill, er iddo fod yn anarferol o sych.

Cyfanswm glawiad mis Mai 255mm (glawiad uchaf o 30mm ar y 9fed a'r 10fed yn gyfartal).

Cyfanswm glawiad mis Mehefin 128.5mm (glawiad uchaf o 45mm ar y 4^{ydd}, 19 o ddyddiau heb law).

Cyfanswm glawiad mis Gorffennaf rain 128.5mm (glawiad uchaf o 45mm ar y 4ydd)

Cyfanswm glawiad mis Awst 364.5mm (glawiadau uchaf 50mm ar y 1af, a 48mm ar y 9^{fed}).

Cyfanswm glawiad mis Medi 36mm (glawiad uchaf o 19mm ar y 25^{ain}; gydag unrhyw law ar bedwar diwrnod yn unig yn Nhŷnewydd!

Cyfanswm glawiad mis Hydref rain 422mm (glawiad uchaf o 65mm ar y 5^{ed}).

Rhodes Paul Marshman adroddiad o'i fis Medi sychaf erioed, gyda dim ond 133 o law. Dyma'i fis ail sychaf erioed, ar ôl mis Chwefror 1986, pan na chafwyd ond 1mm o ddyddodiad yn dilyn mis o rew caled a sych. Dyma'r mis Medi cynhesaf a gofnododd ef erioed. Daeth diwedd i sychdwr mis Medi yn ystod oriau mân Ddydd Llun 6^{ed}, pryd y cofnododd Paul bedeirgwaith glawiad mis Medi mewn cyfnod o wyth awr. Adlewyrchir hyn yng nghofnod Marcus o 65mm ar y 5^{ed}.

Adar

Cafwyd adroddiadau gan Meriel Gough yn gynnar yn y gwanwyn a thua diwedd y gaeaf. Fe nododd hi fod lonawr a Chwefror ill dau yn gynnes. 30 ganlyniad i hyn, fe gododd hi gwestiwn pa mor hir a gymerai esblygiad i'r golfanod fagu traed yn fwy addas ar gyfer amgylcheddau dyfrol, yn enwedig y rhai sy'n bwydo ar y ddaear'. Cyflenwodd Meriel grynoded o'i Harolwg Bronfreithod YAB (Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig) ar gyfer ardal Llantrisant. Nododd hi fod 'niferoedd uchel o **ddrudwennod** ar gyfer mis lonawr a mis Chwefror 2014 yn adlewyrchu haid fechan yn gaeafu. Roeddent yn heidio bob nos lai nac un cilometr o'm tŷ i: 100 oedd cyfanswm yr haid hon. Dyma ail flwyddyn yr Arolwg Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig hon, sy'n cwmpasu'r holl Deyrnas Unedig gyfan i gyd, gan gynnwys mis Hydref hyd at fis Ebrill. Byd hyn o gymorth drwy ddarparu set cynhwysfawr o gofnodion sy'n esbonio sut mae'r rhywogaeth yn cynyddu wrth i fronfreithod o gyfandir Ewrop. Mae rhai manylion eisoes ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth Adareg Brydeinig. Yn ystod yr arolwg bronfreithod y gaeaf hwn, fe nododd Muriel adar eraill hefyd o'i harolwg yn gynnar ym mis Mawrth, 'Roedd yr adar lleol yn tiwnio ar y fron, ac roedd yno bâr o **ddringwyr bach** yn galw ac yn esgyn ar yr un goeden. Fel arfer, ni fydd hyn byth yn digwydd y tu allan i'r cyfnod nythu. Ychydig gamau eto, a dyma **gnocell fraith fwyaf** yn drymio'n uchel ar gangen farw rywle uwchben. Cofnodwyd pâr o **gochion y berllan** hefyd, yn symud i mewn i'r goedwig eto ar drywydd y blagur newydd oedd yn tyfu'. Yn ddiweddarach ym mis Mawrth, gwnaeth ei daith gerdded olaf drwy'r ardal ar y 31^{ain} o Fawrth. Fe amlygodd hyn mor gyflym y bydd poblogaethau adar yn newid gyda threigl y tymhorau. **Roedd siff-siaffod** ym mhob man, a chyfrifais i 12 o rai gwrywaidd yn canu. Newydd gyrraedd ac yn canu nerth ei ben roedd yno **delor yr helyg, telor penddu** ac, i'n hatgoffa ni o'r gaeaf a aeth heibio, un **coch dan adain** yma o hyd. Roedd pob un o'r holl adar preswyl, o ddrywod i **frain tyddyn** wrthi yn adeiladu nythod, i gyd yn canu'. Hefyd yn ôl adroddiad Meriel, '**Mae clochdariaid y cerrig ar y Graig, Llantrisant, a thylluanod brychion ar bwys Hen Dref Llantrisant, yn galw ers yn gynnar ym mis lonawr 2014**'

Ym mis Mawrth, anfonodd Mark Evans **gofnodion o** gigfrain: 'Noson a bore sych a gawsom ar ddydd Sadwrn, ac felly dyma fi yn mynd allan i wneud y cyfrifiad cigfrain ar gyfer mis Mawrth. Roedd niwl ar y bryniau yn y lle byddaf yn cyfri'r adar, ond nid oedd yn rhy drwchus. Gan hynny, penderfynais aros i weld beth fyddai'n digwydd. Cyn hir, fe gododd y niwl. Profiad pleserus wrth aros oedd gweld y Blaned Gwener yn disgleirio'n wych ar y gorwel tua'r de-ddwyrain, a gwrando ar gôr y bore bach. **Bronfreithod** oedd y rhain yn bennaf, gydag ambell i glochdar y cerrig, a hyd yn oed **hwyaden wyllt** yn y pellter. Yn fuan ar ôl i'r cigfrain ddechrau hedfan allan o'r nythfa, am 06:15, fe hedfanodd **cyffylog** heibio yn agos i mi. Gwaith hawdd oedd y cyfrifiad hwn, a bu'r cyfanswm o 167 yn galondid mawr. Dyma'r cyfanswm uchaf erioed ar gyfer y glwydfan/nythfa yma ym mis Mawrth.'

Ym mis Mawrth hefyd fe welodd Paul Marshman **ïach bach** yn gaeafu braidd yn hwyr ar ei lain ef o Lwynypïa. Ar yr un diwrnod, fe welodd ef ei **dinwen y garn** gynharaf erioed, un wrywaidd ar y defeidiogau uwchlaw Llwynypïa. Yn ogystal â hynny, rhoes adroddiad o **nythfa brain** fach o ddwy nyth sydd wedi ymsefydlu ar Fryn Penrhys. Ar Fawrth 14^{eg} fe welodd Paul **siglen wen** ym Mhenrhiwfer, y tro cyntaf iddo wneud yn Rhondda Cynon Taf. Y siglennod gwyn yw cyfnitherod Cyfandirol ein **siglennod braith** ni. Mae'r rhai braith yn isrywogaeth yng ngwledydd Prydain i'r rhai gwyn. Roedd siff-siaffod o Warchodfa Natur Leol Glynconnel yn canu ar Fawrth 19^{eg}. Clywais hwy ym Mhontypridd a'r cylch ar y 24^{ain}. Roedd **gwenoliaid y glennydd** wedi dychwelyd i Drehafod erbyn yr 21^{ain}.

Tua'r un adeg, fe welodd David Harry **linosiaid pengoch** yn ei ardd yn Llanharan. Nesaf, fe gofnododd Paul Marshman delorion penddu, yn ôl yng Nglynconnel ar Ebrill 1^{af}, a thelorion yr helyg erbyn yr 2^{il}. Ar yr un diwrnod, fe welodd Paul dair **o hwyaid danheddog** benywaidd yn gaeafu ar Afon Rhondda. Roedd yn dal i weld hwyaid danheddog hyd at Fai 13^{eg}. Roedd **gŵydd wyllt** ar Lyn Glynconnel ar Ebrill 24^{ain}, yng nghwmni **cwtiar**. Fe nododd Paul adroddiad am dri theulu o gwtieir ar lyn cyfagos Cwm Clydach. Ar y 25^{ein} fe gofnododd Paul **delor yr ardd** yn canu yng Nglynconnel ac un arall ar yr 28^{ain}). Roedd yno **dingoch a thelor yr ardd** ar yr un diwrnod. Roedd dwy lino bengoch yn ei ardd yn Llwynypïa erbyn y 30^{ain}. Roedd y bwydo carwriaethol cyfarwydd amlwg yn awgrymu eu bod yn magu yn lleol. Mawr oedd y croeso ar Fai^{6ed} pan ddychwelodd y **gwenoliaid duon** i Bontypridd.

Anfonodd Tony Swann ei adroddiad rheolaidd o Gors Llanharan a Choed Brynna. *'Uchafbwynt y tymor cyntaf o ran adar a welir yn afreolaidd oedd **bod tinwen** benywaidd ar 19^{eg} o Ebrill. Er bod adar o'r fath yn hedfan uwchben yn nepell oddi yno, yn hen safle glo brig Llanilid, yn anaml y digwyddith hyn. Cyrhaeddodd niferoedd mawr o adar mudol yn gynnar. Siff-siaffod, telorion penddu, a theloriaid yr ardd oedd y prif rywogaethau pennaf sy'n nythu/magu. **Ni ellid peidio â sylwi absenoldeb teloriaid yr hesg a llwydfronnau cyffredin. Dim ond un telor yr helyg a ddaeth i'r golwg a chael ei gofnodi. Bydd gwenoliaid y bondo a gwenoliaid duon yn bwydo uwchben ymannau corsiog, pan fydd tymheredd yr aer yn glaeor. Mae'r chwarter cyntaf drosodd, ac mae'r tywydd, a'r oriau golau dydd, ill dau wedi gwella. Serch hynny, bydd angen rhai misoedd i lwyr sychu manau mawnog y gors. Mae Tony yn gwylio porfeydd gwlyb Coed y Brynna yn tyfu drosodd ers blynyddoedd. Gan hynny, roedd wrth ei fodd yn gweld effeithiau clirio prysgwydd, a gwartheg Ucheldiroedd yn pori o dan gynllun diweddar yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur: 'Cafodd llawer o'r glasbrennau'u clirio, a thorrwyd llawer o'r coed llai yn ôl. Y gobaith yw y bydd llwydfronnau yn ymddangos o'r newydd. A hwyrach, ar ôl bwlch o gryn ddegawd, fe glywn **droellwr bach** yn tiwnio nerth ei wddf o ryw guddfan. Yn ôl un o sylwadau Tony yn ddiweddarach yn yr haf, 'Yn ystod f'ymweliad ar 15^{fed} o Orffennaf, deuthum yn effro, gan ddeall mor dawel oedd y goedwig. Nid oedd galwadau'r siff-siaffod i'w clywed ym mhob man ragor, ac nid oedd y golfanod, yn enwedig y rhai sy'n mudo yn yr haf, i'w gweld yn unman. A dweud y gwir, roedd***

pob un o'r holl alwadau yn dod o **robiniaid cochion, drywod, a mwyeilch**. Roedd bwrw plu ar gyfer yr haf wedi dechrau o ddifrif. Bydd yn ddi-ddorol i gofnodi pryd y bydd hyn drosodd'. Yn ôl ei nodyn 'Cyfnod rhagorol i ac ar gyfer adar ifanc oedd yr haf hwn, yn enwedig pan gefais hyd i grŵp teulu o **ddrywod eurban newydd fagu plu** ar y 30^{ain} o Fehffin - adar sydd wastad yn anodd i'w gweld yn ifanc. Bu pob un o'r holl adar coetir arferol a normal yn magu rhai ifanc - gyda chyfradd uchel o lwyddiant yn sgîl y tywydd. O ran tywydd, profiad hyfryd oedd mynd allan ar ddiwrnodau sych, weithiau mewn heulwen gynnes. Erbyn diwedd mis Mehefin, roedd dail yn dechrau disgyn, yn llawer cynharach na'r arfer. Mae ffrwythau a chnau naturiol ill dau yn datblygu'n dda. Bydd hyn yn ffynhonnell bwyd gwych ar gyfer y ddau chwarter nesaf. Bydd **barcud coch** i'w weld yn rheolaidd uwchben Llanharan, ond nid o'r safle'i hun eto!' Ac hefyd 'I gloi, cefais gyfle ar 26^{ain} o Fehffin i weld grŵp o lwydfronnau cyffredin ifanc i lawr ar badog y da a'r gwartheg. - eithaf prin fel aderyn nythu ar gyfer y safle honno. Dyma nodyn gan Tony yn yr hydref: '20^{fed} o Fedi oedd y diwrnod cyntaf i adar ddechrau canu ym mhob rhan o'r coed eto. Roedd un siff-siaff hyd yn oed, yn galw fel pe bai hi'n fis Mawrth. Yr aderyn gorau i'w weld y chwarter hwnnw oedd yr un ar brynhawn 7^{fed} o Fedi ar hen safle glo brig cyfagos Llanilid. Roedd **hutan y mynydd** ifanc i'w weld ar dir llwm caregog i'r dwyrain o'r stiwdio ffilm.' Cofnod a record gwirioneddol wych yw gweld hutan y mynydd. Mae'n magu yn Ucheldiroedd yr Alban, ond yn mynd drwy Dde Cymru wrth fudo. Rwyf i wedi ceisio'i weld nifer o weithiau ar y brynau uwchlaw Pontypridd, a methu.

Cafodd Jonathan Barrett wanwyn a haf cynhyrchiol iawn. Ym mis Ebrill. 'Roeddwn i allan heddiw yn ardal y Maerdy, yn agos i'r gronfa ddŵr. Gwelsom **fronwen y dŵr** ar y nant rhwng y ddwy gronfa ddŵr. Buom ni'n ei gwyllo am dua deng munud. Ac yna, a ninnau ger y gronfa ddŵr gyntaf, gwelsom aderyn dŵr yn plymio ac yn dychwelyd i'r wyneb o hyd. Un bach iawn ydoedd, ac nid oeddwn i erioed wedi gweld aderyn o'r fath. Ond, gyda chymorth fy llyfr (sydd gyda mi bob amser) roedd modd i mi gadarnhau taw **gwyach fach** oedd yr aderyn. Nid wyf yn sicr pa mor gyffredin ydynt, ond ni welswn i'r un erioed. Mae'n sicr nad yw gwyachod bach yn gyffredin yn Rhondda Cynon Taf. Ni wyddwn fod rhai i'w cael ym mhen ucha'r Rhondda Fach. Gwelai Jonathan farcutiaid cochion yn rheolaidd uwchben Mynydd y Rhigos ac Ynys-hir. Ym mis Gorffennaf, gwelodd **las y dorlan** 'ar y gronfa ddŵr gyntaf rhwng y Maerdy a'r Llest Wen', a '**chudyll bach** ar ddau achlysur yn Llest Wen dros y pythefnos diwethaf'.

Ym mis Mai fe welodd Jonathan 'gog **gyntaf** y flwyddyn ar Safle Tirlenwi Nantgywyddon, yn agos i'r Pentre'. Yn ogystal â hyn, roedd 'digonedd o **gnocellau gwyrddion** ar bwys y fynedfa i safle Glofa'r Maerdy, ac hefyd lawer o **grehyrod glas** ar y llwybr ger yr afon ar yr un safle'. Yn ddiweddarach ym mis Mai, yn ôl ei adroddiad, 'Rwy'n dechrau amau fod rhyferthwy o gogau wedi ein taro yn Rhondda Cynon Taf eleni. A finnau allan yn rhywle, caf deimlad i mi'u clywed bron bob dydd'. Bu Ben Williams o gymorth wrth gadarnhau'r newyddion dam am y cogau. Clywais dair cog yn ardal Tonyrefail. Mi wyddwn fod tri gwahanol aderyn i'w cael. Roedd dau yn canu gyda'i gilydd, a'r llall ar safle gwahanol ac yn rhy bell i ffwrdd'. Anfonodd Paul Marshman ei adroddiad cyntaf

eleni am gog yn y Rhondda ar Ebrill 20^{fed} Bu'n eu clywed drwy gydol y gwanwyn, ac ymddengys iddynt gael gwell flwyddyn nag mewn rhai blynyddoedd diweddar. Roedd Glyn Hughes wedi gweld **barcud coch** ar Ddydd Llun y Pasg uwchben Mynydd Meio'. Roedd ganddo gwestiwn 'A yw'r rhain yn dod yn fwy cyffredin yn yr ardal bellach?' Clywodd gog am y tro cyntaf yn yr ardal hon ers llawer o flynyddoedd - ddwywaith mewn un diwrnod. Roedd un yng Nghoedwig Gwynno Sant, a'r llall ar y mynydd gyferbyn â Glynrhedynog.

Cafodd Ben Williams olwg ardderchog ar **walch Marthin** benywaidd ym mis Mehefin. Hela yn Nhonyrefail roedd hi. 'Yn anffodus,' meddai, 'nid yw fy nghwpan yn llawn. Collais gyfle i dynnu llun gan i mi'i gweld tra yn gollwng deigrin dros Gymru'. Fe glywodd Paul Denning **delor y cyrs** yn canu yn y gwelyau cyrs, corsleoedd, gwelyau brwyn, a chorslwyni ger Glofa'r Cwm. Adar digon prin yn Rhondda Cynon Taf yw teloriaid y cyrs. Yn ôl adroddiad arall gan Paul. 'Mae telor yr ardd ger Cae'r Ysgol, Tonyrefail, a gwelais nifer o gogau. Y rheswm am hyn, mae'n debyg, yw fod niferoedd mawr o **gorhedyddion y waun** o gwmpas Tonyrefail'.

Mae Mark Evans yn parhau i fonitro'i glwydfan cigfrain anferthol, yn ogystal â'r **troellwyr mawrion** ar y ffin rhwng Merthyr Tudful a Chwm Cynon. Fe all yr haf fod yn amser blinedig i ecolegydd, ond mae pob eiliad o waith yn werth yr ymdrech. 'Roeddwn i allan yn hela gwyfynod nos Wener tan doriad gwawr. Awr a hanner o gwsg wedyn, a dyma fi ar lawr eto ar gyfer fy ngweithgarwch arferol ar gyfer y Sadwrn. Noson gynnar amdani eto, ac roeddwn ar fy nhraed eto i gyfri'r cigfrain. Cyrhaeddais fy llecyn cyfrif am 03:30, gosod f'offer, ac aros. Mwynheais ddatganiad graenus gan gôr y bore bach. Cynhwysai hwn glochdariaid y cerrig, **ehedyddion, breision y cyrs, llwydiaid y gwrych**, drywod, robiniaid cochion, **bronfreithod**, mwyeilch a chogau (2). Er gwaethaf rhyw wawl glas golau tua'r gogledd-ddwyrain, roedd hi'n dal yn dywyll iawn. Roedd y sêr yn disgleirio uwchben, ac am ennyd mi welais i'r Orsaf Ofod Ryngwladol yn teithio drwy'r entrychion. Mae bryn yn gorwedd rhyngof i a'r glwydfan, rhwst, neu nythfa. Ael y bryn yw fy ngorwel dwyreiniol, a dyma fi'n gweld aderyn mawr yn dod i'r golwg drosti. Hedfanai'n isel, gyda'i amlinelliad i'w weld am foment yn erbyn wybren diwedd y nos. Disgynnodd islaw'r gorwel, a mynd o'r golwg. Parheais i graffu ar y gorwel ac ar yr wybren uwchben am ychydig funudau. Yn y pen draw mi welais siâp ddigamsyniol yn hedfan yn bendant o fwriadol tuag ataf - **tylluan wen**.

Dechreuodd y cigfrain hedfan allan am 04:15. Yn groes i'r patrwm arferol wrth iddynt hedfan allan, nid oeddent yn ymadael mewn grwpiau bach neu mewn parau. Y tro hwn, ymadawodd y rhan fwyaf ohonynt mewn tri grŵp mawr. Yn sydyn reit, roedd yr wybren yn llawn adar. Mae hyn yn rhyfeddol o drawiadol a chyffrous i'w weld, ond yn hunllefus i'w gyfrif, hyd yn oed gyda'r teclyn cyfrif bach hylaw sydd gennyf. Ar ôl yr hwrdd cyntaf o weithgarwch, gyda 189 o adar yn cael cyfrif mewn pum munud, bu saib o ugain munud cyn i'r adar nesaf ymddangos. Yn y pen draw, am 05:35, hedfanodd yr hanner dwsin olaf o adar yn hamddenol heibio ar eu ffordd i domen Pica. Roedd hi'n bryd cau pen y mwdwl a throi tuag

eithaf da, diolch o bosibl i'r gaeaf mwyn. Roedd yr adar sy'n ymweld yn y gaeaf yn cynnwys cnocell fraith fwyaf, un telor y cnau, a phâr o gochion y berllan sydd wedi aros yn yr ardd. Cofnodwyd hefyd fod niferoedd y llinosiaid gwyrddion yn dal i adfer ac adennill tir. Serch hynny, fe welwyd pedwar aderyn 'oedd i'w gweld wedi'u lladd gan barasit trichomanes [sic] yn ogystal â ji-binc marw'. Serch hynny, mae llawer ohonom wedi sylwi nad oedd drudwennod yn yr ardd. Ar yr un pryd, roedd gweld 'dau ddwsin o ddrudwennod ar bolyn lamp' wrth fynd am dro yn y car yn 'hyfrydwch i'r llygad'. Rwy'n cofio'r amser pryd oedd gerddi yn llawn drudwennod yn cecran yn ystod y gaeaf, a chyn lleied o sylw a roddwn iddynt. Daeth tro ar fyd, yn wir. Yn anaml iawn y caf weld drudwen yn ei phlu brith ysblennydd ar gyfer yr haf, a'i chlywed yn pyncio'i chân ddifyr o wichian, chwibanu, ebychu, a dynwared. Dyna pryd y sylweddolaf faint ein colled.

Paul Carsons: **Mae gwenoliaid** ger ei gartref yng Nghwmbach wedi llwyddo i fagu dwy nythaid yr haf yma. Un o'm huchafbwyntiau bywyd gwyllt arbennig i (na chawn ei weld pe bawn i'n byw rywle arall) yw gweld y gwenoliaid yn mudo yn yr hydref, ar eu ffordd tua'r dwyrain ar hyd Afon Elái ac uwchben Meisgyn. Os am weld y symudiad adar hwn, yn hwyr ryw brynhawn llonydd a chynnes neu'n gynnar min nos, ym mis Medi. Eleni mi wyliais rai cannoedd yn mynd heibio fry mewn grwpiau bach o rai aeddfed gyda'u cynffonnau hir, a'r rhai ifanc gyda chynffonnau cwta. Roeddent yn hedfan heibio am awr a hanner cyn iddi nosi ar Fedi 18^{fed}. Dri diwrnod yn ddiweddarach, daeth mil o wenoliaid yn un rhyferthwy ddeng munud wrth i'r tywyllwch ymledu dros y tir. Mae angen i rywun fyw mewn dyffryn i weld y fath symudiadau o adar. Yn aml iawn, byddaf yn treulio'r min nos yn syllu draw tua'r Gorllewin, yn cuddio fy llygaid o belydrau'r haul mis, gan aros am i'r gwenoliaid ddod drwy fwch Afon Elái. Cafodd Paul Marshman well hwyl na hyn hyd yn oed pan gyfrifodd 1,500 o wenoliaid yn dod drwy'r Rhondda ar Fedi 28^{ain}, a dwy wrenol mor ddiweddar â Hydref 7^{fed}. Ar Awst 8^{fed}, gyda Kevin Oates yn gwmni, bwm yn gwyllo haid o 300 o wenoliaid y bondo yn bwydo ac yn clwydo ar linellau pŵer trydan ar borfeydd y gorlifdir yng Nghilfynydd. Roedd yr awyr yn llawn o wenoliaid y bondo yn switian - Ymddengys fod y gwenoliaid duon wedi ymadael yn gynt nag arfer, o bosibl oherwydd yr haf cynnes a thwym. Roedd y rhan fwyaf wedi mynd o Bontypridd erbyn Gorffennaf 28^{ain}.

Erbyn Medi 12^{fed}, roedd Paul Marshman wedi gweld 12 o hwyaid danheddog, wedi dychwelyd ar gyfer y gaeaf, ac yn hedfan i fyny ac i lawr y Rhondda Fawr. Fe welodd ef las y dorlan ar Lyn Glyn cornel hefyd. Ym Mhontypridd, roeddwn i'n sylwi **cochion dan adain** cyntaf y gaeaf ar Hydref 15^{fed}, pan ehedodd cyfres o heidiau drwodd.

Newyddion Tirfounder

Mae James Burton yn cadw llygad craff ar wlyptiroedd gogoneddus Caeau Tirfounder, Cwm-bach. Dyma'i grynodedb o weithgarwch y flwyddyn yno: *'Y gorlifo mawr ym mis Ionawr oedd y digwyddiad mawr eleni. Roedd dyfnder y llifogydd tua metr, gyda'r dŵr yn gorlifo dros yr holl safle gyfan. Bu bron i'r llifogydd foddli cartrefi newydd, a bu raid codi lefel un o'r glannau o ganlyniad. Roedd hyn yn*

anghyfleus iawn i'r traffig, ond bu o gymorth i glirio'r pwll dŵr o groniad o'r alaw Canada estron, ymledol o'r dyfrffyrdd. Yn ogystal â hyn, bu'n fodd i adfywiogi'r ardal neu fan drwy ddod â gwaddod silt a physgod i mewn. Yn ogystal â'r heidiau arferol o bilaod gwyrddion, titwod cynffon hir, nicos, a chrehyrod glas, cefais ennyd hyfryd yng nghwmni prin **titwod yr helyg** yn y gwanwyn. Dim ond o fis Ionawr hyd fis Mawrth y bydd y rhain yn galw heibio, er mwyn nodi ffiniau'u tiriogaeth. Mae'n dal yn ddirgelwch lle maent yn nythu yn yr haf, ac a fônt yn bwydo ar y safle. Serch hynny, os byddant yn galw heibio yma mae'n anodd osgoi'r casgliad eu bod yn bwyta yma ar adegau ac achlysuron ysbeidiol. Ar ôl i mi wrando ar eu galwadau, mi gesglais i mi glywed dau aderyn gwrywaidd yn galw ac yn gwylio trydydd un. Yn ôl ymgyrch Orlhain Adar, cawsant eu gweld ledled y Cymoedd. Nid poblogaeth unig ac ynysig mo hon, felly. Peth rhyfeddol i mi oedd sylwi ar hyd at 45 o robiniaid cochion, a'r un nifer o fweilch, ar y safle yn ystod un ymweliad. Weithiau, bydd heidiau ohonynt yn preblan ar draws ei gilydd, weithiau ni fydd ond dyrnaid bach, ac o dro i dro cawn ryw ornest flynyddol i fachu'r safle orau.

Ymhlith fy momentau mwyaf cofiadwy rhaid crybwyll y profiad o sylwi tri glas y dorlan ar unwaith. Clywais ddau o'r rhai gwrywaidd yn galw, o rywle eithaf agos i mi, i un o'r rhai benywaidd i fyny'r afon. Byddaf yn dod ar eu traws bob tro i mi fynd i chwilio am adar. Roeddwn i wedi bod yn eithaf amheus ynglŷn â phresenoldeb dyfrgwn, ac felly roeddwn i wrth fy modd wrth sylwi ar fy nyfrgi cyntaf ar y safle ym mis Mai. Gwelais aderyn benywaidd (yn ôl pob tebyg) yn sgrafangu ar drywydd cramenogion drwy'r cerrig ar bwys llwyfan y pysgotwyr. Roeddwn i wrth fy modd. Yn dilyn hynny, gwelais fincod ar nifer o achlysuron. Mae pob rhywogaeth fudol arall yr oedd disgwyl iddi gyrraedd a magu ar y safle wedi gwneud hyn. Byddai hyn yn cynnwys telor yr ardd, telor yr hesg, telor y cyrs, y telor penddu, y llwydfron, y wenol, y wennol ddu, y siff-siaff, gwennol y glennydd, a gwennol y bondo. Dylwn nodi na welais **iachod na throellwyr bach** ond rhaid cofio fod y rheiny wastad yn ymguddio'n dda. Nid oedd y gwyddau gwyllt chwaith wedi bridio a magu eleni. Mae rhywun yn tybio, rhagdybio, a chymryd iddynt gael eu hysglyfaethu, eu hela, neu'u disodli gan y **gwyddau Canada**. Roedd y rhain i'w gweld ar y safle nythu arferol yn y gwanwyn. Weithiau, bydd heidiau mawr ohonynt yn cyrraedd. Roedd prif haid y gwyddau gwyllt wedi ymgartrefu ym Mharc Aberdâr, lle byddant yn rhyngfridio â'r hwyaid Aylesebury a'r gwyddau Tsineaidd. Dim ond un yn unig sy'n aros ar y pwll dŵr. Cafodd ei hadain ei hanafu â gwn, mae'n debyg. Collais yr heidiau o gochion dan adain eleni, hyd yn oed ar ôl i mi fentro allan ym mis Tachwedd. Roedd y draen gwynion eisoes wedi cael eu gadael yn llwm yr adeg honno. Efallai fod y cochion dan adain wedi bwyta'u gwala a symud ymlaen. Tynnais fideo o haid o 70 ohonynt ar gaeau'r Ynys yr adeg hon eleni. A minnau yn ysgrifennu hyn, mae'r haid flynyddol o gorhwyaid yn lercian ar y pwll dwr yn y cefn. Mae rhywun yn eu hadnabod wrth eu chwibanu hiraethlon ar unwaith. Disgwyliaf i'r pâr arferol o hwyaid danheddog gyrraedd yn fuan.

Amffibiaid ac Ymlusgiaid

Dyma adroddiad Meriel Gough: 'Yn 2013, roedd **brogaod** yn Llantrisant wedi grifftio yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Ebrill. Yr wythnos yn dechrau 17^{eg} o Chwefror oedd yr adeg. Dyddiadau hwyr iawn yw'r rhain; wythnos olaf mis Ionawr yw'r patrwm ar gyfer y 12 mlynedd i mi fod yn byw yn Llantrisant.

Gwelodd Jonathan Barrett 'digonedd o **fadfallod dŵr cyffredin** yng Nghronfa Ddŵr Llest Wen. Mae'n debyg taw **madfallod dŵr palfog** oedd y rhain. Mae'r rhain i'w gweld yn arbenigo'n benodol ym mhyllau dŵr, llynwennau, a phwdeiau asidaidd y Cymoedd. Ym mis Gorffennaf, fe welodd Jonathan **fadfall** yng Nghoedwig Llanwynno. Cafodd Jill Price hyd yn yr un ardal i *neidr ddefaid farw ar ochr y ffordd, ychydig heibio i Dafarn y Brynffynon, ger Coedwig Llanwynno, Ynys-y-bwl.*

Yn gynnar ym mis Mai, fe sylwodd Therese ac Eddie Charnock fod 'dwy fadfall yn nofio yma ac acw yn ein nodwedd dŵr fwyaf. Serch hynny, pump a gyfrifais i yr wythnos ddiwethaf. Bydd brogaod yn yr ardd o hyd, ond dyma'r tro cyntaf i ni gael grifft brogaod. Gwelodd Peter Morris rifft brogaod yn ei byllau dŵr a llynwenni yng Nghwm Clydach - yn gynharach na'r arfer eleni.

Mamaliaid

Roedd David Harry wedi gweld dau **ystlum pedol lleiaf** yn ei gwt coed yn Llanharan erbyn Mawrth 10^{fed}. Nid i fagu yn ei gwt y daethant eleni. Ond buont yn gwibio yn ôl ac ymlaen ar wahanol adegau, gyda hyd at bump yn bresennol. Mae'r ardd yn agos i un o nythfeydd magu mawr yr ystlum pedol lleiaf. Ymddengys fod ystlumod yn symud rhwng y ddwy safle dros yr haf. Mae hyn yn rhoi cipolwg i ni ar sut y bydd nythfa ystlumod mawr yn gweithio, a sut y gall safleoedd nythu a chwsgfannau gerllaw fod yn bwysig iawn. Yn ogystal â hyn, fe welodd David ystlum mawr yn bwydo yng ngolau dydd uwchben ei ardd mor ddiweddar â Hydref 18^{fed}.

Dyma neges gan Jill a Wynford Price, yn hwyr ym mis Tachwedd: 'Buom allan hwnt ac yma ar hyd y lle yn y goedwig ddoe, yn mwynhau'r tywydd braf. Roeddwn i'n ddigon lwcus i gwrdd â **bronwen**.... mor chwilfrydig amdanaf i â finnau amdani hi. Anfonaf y llun atoch cyn gynted ag y medraf. Ymlaen â fi eto, ac eistedd i lawr am bum munud mewn darn neu lain o sbrws, lle gwelais **ddryw eurben** gwrywaidd, ac un benywaidd hefyd. Dyma lecyn delfrydol iddynt. Ni thynnais lun, gan fod sŵn y camera yn hala dychryn arnynt'.

Roedd gan Jonathan Barrett gofnodposibl o **lygoden bengron y dŵr yng Nghronfa Ddŵr Llest Wen**. 'Posibl', a ddywedaf, gan nad oes gennym unrhyw boblogaethau hysbys yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, mae Cronfa Ddŵr Llest Wen yn gorwedd mewn man i ffwrdd o brif fannau y minc. Dyna'r union fath o le y gallai llygod pengrwn y dŵr fod wedi goroesi. Rhaid i mi gael amser i edrych ar adroddiad Jonathan.

Bu Peter Morris yn meddwl am y mamaliaid y bydd ef yn eu gweld yng Nghwm Clydach. Yn ôl ei nodyn, *'Dyma rai na welwn yn aml: mae gennym **gwningod** yng ngwaelod yr ardd, a daw **cadno yn crwydro heibio o dro i dro, yn ogystal ag ambell i ddraenog**. Rwy'n meddwl, sbo. Gwnaf fy ngorau i gadw cofnodion manylach o hyn allan'*.

Glöynnod

Ym mis Mawrth, rhoes Mark Steer adroddiad o niferoedd da o **felynion y drain** yn hedfan yn heulwen yng Nghoed y Brynna, Llanharan. Ym mis Ebrill, wedyn, fe welodd Ben Williams **drilliwiau bach, un fantell paun**, a llawer o freninesau cacwn yn chwilio am fannau nythu yn y porfeydd rhos newydd a reolir gan y Cyngor yn Llanilltud Faerdref. Yn ogystal â hyn, fe welodd ef dair o **lygod pengrwn y maes** yn sgialu drwy'r *Molinia*. Gwelais **wynion blaen oren** a melynion y rhafnwydd yn Abercynon ar Ebrill 14^{eg}. Yn fuan wedi hynny, gwelais lawer o drilliwiau bach a mentyll paun ym Mharc Gwledig Cwm Dâr. Ymhlith danadl ar lan ger ymyl y ffordd ar Heol Pantgraigwen, Pontypridd, roedd trilliwiau bach wedi creu gweoedd larfal yn hwyr ym mis Ebrill. Braff o beth oedd gweld adferiad y glöyn hardd hwn. Ar Ebrill 28^{ain}, roedd gwynion blaen oren a **gwynion gwythiennau gwyrddion** yn mwynhau llaeth y gaseg ym Mharth Gwylt Parc Coffa Ynysangharad, yng nghwmni rhyw ddwsin o **wenynbryfed**.

Yn gynnar ym mis Mai fe anfonodd Paul Marshman adroddiadau am ddau **gytref** brithribin gwyrdd, y naill yn agos i Goed Bodwenarth, Llwynypïa, a'r llall uwchlaw hen Ysbyty Llwynypïa. Fe welodd Therese ac Eddie Charnock, ar y llaw arall, **mantell dramor** a mantell paun yn eu gardd ym Meisgyn yn gynnar ym mis Mawrth.

Aeth Ben allan ar gaeau ffordd osgoi Llanilltud Faerdref ym mis Mai i chwilio am frithegion y gors. Ni chafodd ddim hwyl arni, ond nododd ei fod wedi *gweld pedwar o felynion y drain, 12 o wynion gwythiennau gwyrddion, a 54 o **leision cyffredin ar yr ardal neu fan ar fin ac ymyl y ffordd**. Ond cafodd Ben well hwyl arni yn Nhonyrefail, lle gwelodd frithegion y gors yn chwilio a chwalu yn y ddwy safle lle cefais hyd i weoedd larfal yr hydref diwethaf ac wele! dyma fritheg y gors wrywaidd newydd sbon danlli. Gobeithio y gall gael hyd i fritheg y gors fenywaidd*.

Gwnaeth Ben a Richard Smith, a Paul Denning, ymdrechion nobl i gael hyd i frithegion y gors Diolch i'r drefn, cawsant lwyddiant haeddiannol. Nid blwyddyn orlawn a llwyddiannus ar gyfer y glöyn yn Nhonyrefail, ond bu'n llawer gwell nag yn 2013. Yn ôl adroddiad Paul: *'Cyfrifais i saith o leiaf o frithegion y gors, gan gynnwys dau löyn gwrywaidd yn cwrso'i gilydd'. 'Newyddion da ar ôl y llynedd!'* Aeth Ben i'r un safle, ond ar adeg wahanol. Dyma'i adroddiad ef: *'Roeddwn i wedi mynd i weld a oedd brithhegion y gors yn dal i hedfan o hyd, a dyma hwy. Roedd yno bump o frithegion y gors; tair o **frithegion perlog bach**; tri o **wibwyr mawr** ac un trilliw bach. Dim ond 20 munud a dreuliais ar y safle hon, heb fod yn hir o gwbl. Roedd rhyw lanciau ar feiciau modur yno, ac nid oeddwn am iddynt weld beth roeddwn i'n ei wneud'*. Parhaodd y gwaith yn yr hydref, gyda

chwiliadau am weoedd larfal. Fel y dywedais, y mae ychydig weithwyr brithegion y gors ymroddedig yn Rhondda Cynon Taf, ac mae Ben Williams yn un ohonynt. Y llynedd, yn dilyn oriau seithug o chwilio am weoedd larfal brithegion y gors, aeth ati i gyfansoddi. Roedd hydref 2014 yn llawer gwell, a chafodd Ben ysbrydoliaeth (os dyna'r gair cywir) i gyfansoddi eto

*Y llynedd treuliais oriau maith
wrth chwilio drwy holl flodau braith
Y gors am y glöynnod brith
Sy'n heidio ymysg y gwawn a'r gwllith.
Mi welais ddau, a magu blys
I yrru neges fach ar frys;
Eleni, er mor hwyr ein llwyth
I'r gad, fe welsom **Dri Deg Wyth !!!**
Mae cur yn fy mhen!*

Fe gyfrifodd Paul Denning ddeg - *nifer anhygoel -o frithribinod gwyrddion yn bwydo ar ffa'r gors uwchlaw Cae'r Ysgol. Dyna'r nifer fwyaf a welais erioed'*. Fe wyddom yn sicr, diolch i ymdrechion yr arolwg, taw blwyddyn dda i frithegion perlog bach, melynion y drain, a brithribinod gwyrddion oedd eleni.

A diolch i waith caled Richard Smith a Ben Williams (ac eraill), fe wyddom fod brithegion y gors wedi gwneud yn eithriadol o dda eleni yn eu hardal metaboblogaeth arall, ym mhen gogleddol Cwm Cynon. Gwelwyd cannoedd o frithegion aeddfed yn hedfan mewn nifer o rannau o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn Hirwaun, ac mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig eraill yn yr ardal. Arwydd calonogol arall oedd gweld y glöyn hwn yn ehangu'i gynefin i dir a reolir yn benodol ar gyfer cynefin brithegion y gors. Mae'n gorwedd ar Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, lle cafodd Peter Sturgess hyd i ryw 20 o weoedd larfal yn yr hydref.

Cafodd Mark Evans hyd i safle newydd ar gyfer brithegion y gors mewn rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Penywaun sy'n eiddo i'r Cyngor. Yn ôl ei ddisgrifiad: *'Ar Ddydd Gwener Mai 30ain, roeddwn i wedi gorffen rhyw waith yn gynt na'r disgwyl, ac roedd gennyf duag awr yn rhydd. A minnau'n mynd heibio i'r dramffordd sy'n arwain i geuffordd Gamlin, penderfynais yrru i fyny yno a mynd am dro yn yr hen ddôl sy'n gorwedd rhwng y dramffordd, y ffordd osgoi, a Nant-yr-hwch. Roeddwn i wastad wedi meddwl fod rhywbeth arbennig am y ddôl hon. Ond prif nod f'ymweliad oedd presenoldeb digonedd o eurwiail yno. Un o'm gobeithion oedd gweld **Anania funebris** (microwyfn du a gwyn prin rhyfeddol o drawiadol sy'n bwydo ar eurwiail). Wrth gyrraedd y fan mi sylwais ar unwaith fod y rhan fwyaf o redyn y llynedd ar hyd yr ochr ogleddol wedi cael ei losgi. Roedd yr eurwiail i'w weld yn amlwg. Treuliais gryn amser yn crwydro drwy'r ardaloedd mwyaf addawol, ond nid oedd dim i ddangos presenoldeb y gwyfynod. Gan fod amser yn mynd yn brin, penderfynais groesi canol corsioeg cae, gan gerdded i fyny'r llethr tua'r gornel ogledd-orllewinol. Bu raid i mi wthio fy ffodd drwy fan helaeth o **erwain** a gyrhaeddai hyd at fy morddwydydd. Dyma fi yn baglu ar*

*draws cytref o rai dwsinau o larfâu **ymerodron** wrthi'n cnoi'r erwain. Yn ogystal â hynny, mi welais **wibiwr llwyd**.*

*Croesais ran sychach o'r cae, a chyrraedd man gweddol gwastad (SN 9855 0455) braidd yn gorsiog. Dyma fi yn sylwi ar frenhines cacwn fawr, ar flodyn **tegeirian y gors deheuol**. Tynnais lun ohoni, a hwylio i ymadael gan fod f'awr rydd bron ar ben, ond hedfanodd glöyn mawr oren heibio i mi. Glaniodd ar flodyn menyn heb fod ymhell i ffwrdd. Amheuais ar unwaith pa fath o löyn oedd hwn, sef britheg y gors. A minnau'n dod yn nes, gwelwn fritheg fenywaidd hyfryd yno. Rhaid dweud nad yw brithegion y gors i'w gweld yma yn aml. Mae'r safle yn agos i Gaeau Tir Mawr, a rhaid fod y safle gan hynny yn rhan o Fetaboblogaeth Llwydcoed'.*

Treuliodd Ben awr a hanner wrth ei fodd yng Nghwm Clydach ym mis Mehefin. Gwelodd yno '45 o frithegion perlog bach, un *fritheg werdd* (*newydd ddodwy*); 40 o **weirlöynnod bach y waun**, un *glesyn cyffredin*; *melyn y rhafnwydd arall!* 10 o *wibwyr mawr*; *pedwar trilliw bach*; a *thri gwyn gwythiennau gwyrddion* Mae'r safle hon yn *fwrlwm o fywyd ar hyn o bryd, gyda glöynnod ym mhob man. Serch hynny, rwy'n amau y bydd raid cael trefn ar yr holl fieri yno yn fuan'*. Cefais hyd i frithegion perlog bach ar nifer o leoedd ar Gomin Llantrisant.

Ym mis Mai, fe gafodd Paul Denning hyd i gytref newydd o **leision bach** ar hyd yr hen linell reilffordd yn y Beddau. Hyd y gwn i, dyma'r pedwerydd cytref gleision bach yn ardal Llanharan neu Lantrisant. Mae gennym un o leiaf yng Nghwm Cynon, ac un o bosibl yn y Rhondda. Rhywogaeth gynyddol brin yw'r glesyn bach, yn dirywio drwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Mae llinellau rheilffordd a manau tir llwyd, sy'n eithaf cyfoethog eu rhywogaethau yn un o ychydig ardaloedd ehangu ei amrediad yn y Deyrnas Unedig i gyd. Yn ogystal â hyn, gwelodd Paul **lwydfelyn** ger Glofa'r Cwm, ac fe ddeuthum i ar draws un yn Nhon-teg ym mis Medi. A Steve Murray yn edrych ar y gleision cyffredin. '*Cefais i hyd i gytref o amrywolion lliw glas benywaidd i fyny ar domenni gwastraff Glofa Lady Windsor. Yn llawer pertach na'r rhai brown!*'

Mae Margaret Harding hefyd wedi gweld nifer o drilliwiau bach ac o **weirlöynnod brych** yn y Beddau a'r cyffiniau eleni. Fe welodd Kevin Oates fritheg fawr yn gynnar ym mis Gorffennaf (britheg werdd o Barc Heddwch Aberpennar, o debyg), a gleision cyffredin yn Abernant. Ym mis Awst, bu Paul Marshman yn gwylio **brithribin porffor** o gwmpas eu pethau ar hyd frigau'r derw (oedd ar y llethr islaw iddo) yng Nghoed Bodwenarth, Llwynypïa.

Gwyfynod

Daeth y neges ganlynol i law oddi wrth Mark Evans. *Rwyf wrthi ers rhyw fis bellach, pan gaf gyfle, i archwilio'r yr holl fanadl i gyd a welais, gan chwilio am dyllau cloddio microwyfyfyn o'r enw *Trifurcula immundella*. Cefais hyd i un ym *Mlaen-nant*, a minnau ar drywydd ffyngau rhwd. Serch hynny, mae mandyllau cloddio bron yr un ffunud i'w cael mewn coesyntau a bonion banadl. *Leucoptera**

spartifolietta oedd y rhywogaethau eraill, ond nid oeddwn i'n sicr p'un oedd wedi dod i'r fei. Yn ffodus, mi welais larfa fach sgleiniog liw ambr yn ceisio ymestyn o un o'r tyllau cloddio. Roedd ganddi ben du, ac nid oedd i'w weld yn hapus o gwbl. Hyd y gwelwn i, cawsai'r larfa ryw fath o anaf ac roedd bron yn methu â symud. Dyma fi felly yn ei chasglu ac yn tynnu llun ohoni cyn iddi farw. Postiais y lluniau ar flog Grŵp Cofnodi Gwyfynod Morgannwg, a derbyn cyngor da gan George Tordoff, gan gynnwys y cyswllt hwn:

<<http://microleps.blogspot.co.uk/2012/02/moths-on-broom-in-winter.html>>

Bellach, mi wn sut i adnabod madyllau cloddio rifurcula immundella. Rhaid chwilio am y plisg wyau mân yn dal i lynu wrth y coesyngau a bonion banadl o hyd. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, cadarnheais bresenoldeb T, immundella ym Mlaen-nant. Dyma'u cofnod cyntaf i'w gadarnhau ar gyfer Is-sir 41 Morgannwg. Oddi ar hynny rwyf wedi cadarnhau'i bresenoldeb mewn chwech o fannau eraill yn Rhondda Cynon Taf, ac un ym Merthyr Tudful. O'r ddau gofnod diwethaf, roedd un o fandyllau cloddio a sylwais ar fanadl, a minnau ar y ffordd adref o fforwm y cofnodwyr. Tyfai ochr yn ochr â'r ffordd sy'n dringo i fyny Mynydd y Rhigos o Dreorci. Roedd y planhigion yn y man lle mae'r ffordd yn croesi'r tirlithriad, Roedd y cofnod arall ar safle Gwaith Haearn Aberdâr, Llwydcoed. Sylwais ar fanadl yn tyfu ar safleoedd eraill yn y cyfamser, ond ni chefais gyfle i'w harchwilio am dyllau cloddio.'

Roeddwn i'n falch i weld **gwalchwyfyn hofran** (yr unig un a welais drwy'r haf), yn fy ngardd ym Meisgyn ar Fehefin 1^{af}. Ym mis Mehefin, mi welais ddigonedd (deg neu ragor) o **adenydd** duon o gaeau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n eiddo i'r Cyngor ym Mhen-y-waun. Yn ogystal â hynny, mi welais y gwyfyn hwn mewn dau gau gwlyb arall ar hyd lan Afon Cynon, rhwng Llwydcoed a Phen-y-waun. O edrych yn fy nghopi newydd o atlas ardderchog 'The Moths of Glamorgan', mi sylweddolaf mor brin yw'r adain ddu - ac mor bwysig yw'r ardal hon o laswelltiroedd gwlyb. Byddwch chi'n adnabod yr adain ddu ar unwaith - gwyfyn bach unigryw a thrawiadol o liw huddygl, sy'n hedfan liw dydd. Mae microwyfynod yn eithaf bach ar y cyfan, fel yr awgryma'r enw. Maent yn anodd i'w hadnabod. Serch hynny, mae gennyf gyfrol ardderchog 'Field Guide to the Micro-Moths of Great Britain and Ireland' (o gwmni British Wildlife Publishing) i law bellach. Dyma fi felly yn bwrw ati i adnabod rhai (er nad pob un ohonynt) o'r creaduriaid cywraïn hyn. Mae llwyni yswydden gwyllt yn fy ngardd i, wedi tyfu o hadau a gasglwyd yn lleol. Y mis Mehefin hwn, roedd heidiau o fân ficrowyfynod ar y llwyni ac ynddynt hefyd. Llwyddais i ddal un, a chael cyfle i'w edmygu o dan y microsgob. Fel smotyn o ryw liw llwydfelyn braidd yn ddiflas y gwelais i'r gwyfyn gyntaf. O graffu yn nes, gwelais fod gan y gwyfyn adennydd cennog o harddwch anhygoel. Roedd yma batrwm mosaig o liwiau hufen, brown, llwyd, melyn, ac oren. Trois at y llyfr, a chael ar ddeall taw **Pseudargyrotozoa cobwagana** yw enw'r gwyfyn hwn, sy'n byw ar yswydden wyllt. Yn ogystal â hynny, rwyf wedi darganfod fod gan y coed afalau'r **tortrics rhesog**. Gwyfyn hardd yw **Dipleurina lacustrata** sy'n efelychu cennau. Bydd yn treulio'i ddyddiau yn ymguddio ymhlith y cennau ar y wal gefn. Nid yw'r un o'r rhywogaethau hyn yn brin, ond braf yw gwybod beth yn gywir ydynt.

Ffyngau

Bu Mark Steer yn cadw llygad craff iawn ar y ffyngau yng **Nghoed y Brynna yn ystod Haf 2014**. 'Er i'r haf hwn fod yn sych iawn gan amlaf, rwyf wedi sylwi ar nifer o ffyngau, gan gynnwys rhai rhywogaethau sydd heb gael eu cofnodi yn dda iawn.

Y profiad mwyaf cyffrous oedd cael hyd i enghraifft bosibl o **fenig llwyfain Hypocreopsis lichenoides**. 24 o gofnodion sydd yn y Deyrnas Unedig i gyd, ac un yng Nghymru, ar gronfa ddata Cymdeithas Fycolegol Prydain. Rhestr Data Coch yw hon, sy'n nodi rhywogaethau mewn perygl difrifol. Rwyf wedi anfon enghraifft i Brifysgol Aberystwyth. Gobeithio y bydd y gwyddonwyr yno yn gallu cadarnhau hyn drwy ddadansoddi'r asid diocsiriboniwclëig.

'Rhywogaethau eraill wedi'u hadnabod:

Tricholoma stiparophyllum dim ond 60 o gofnodion yn unig yn y Deyrnas Unedig

Tarian helyg Pluteus salicinum eto, ychydig o gofnodion, yn enwedig yn Is-sir 41 Morgannwg

Capiau poplys Agrocybe cylindracea dim ond 2 o gofnodion yn unig yn Is-sir 41 Morgannwg

Cap cŵyr duol Hygrocybes conica

Tafod gwern Taphrina alni

Marasmiellus candidus

Olwyn y brigau Marasmiellus ramealis

Cap inc y Tylwyth Teg Coprinellus disseminatus

Cramen ludiog Hymenochaete corrugata

Boned ddiferol Mycena rorida

Boned oddfog Mycena stylobates

Olwyn y coed Marasmius rotula

Coden smotiog Scleroderma areolatum

Coden euraid gyffredin Scleroderma citrinum

Boned rhisgl Mycena speirea

Ffwng llwydni derw Erysiphe alphitoides yn gyffredin ac amlwg eleni, yn ogystal â llwydnïau ar ddail courgette a phwmpen!

Tafod y bustach Fistulina hepatica

Yn gynnar ym mis Rhagfyr, fe nododd Mark fod '... cyffro mawr yn ddiweddar wrth ddarganfod, ychydig dros y ffin ar Fynydd y Gaer, **ffwng Cap powdr cennog Squamanita paradoxa**. Ardal lle ceir llawer o gapiau cŵyr (Hygrocybes) yw Mynydd y Gaer, yn ôl pob tebyg. Cynefin gweddol debyg yw Comin Llantrisant, ac mae nifer o ffyngau i'w cael yno hefyd. Mae Grŵp Ffyngau Morgannwg yn bwriadu cynnal Fforiad yno yn 2015'.

Yn ôl neges Mark, yn dilyn ailffurfio Grŵp Ffyngau Morgannwg yn ddiweddar, bu'r Grŵp yn weithgar iawn. Rydym ni eisoes wedi trefnu nifer o Fforiadau, ac mae

rhagor ar y gweill ar gyfer yr hydref. Hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp? Croeso i chi ebostio'r Ysgrifennydd, Mike Bright: glamorganfungi@gmail.com. Gwelais argraffiad cyntaf cylchlythyr y Grŵp. Mae'n llawn o luniau lliw.

Cefais lun gwych gan Steve Murray o'r '**Geastrum triplex**' sy'n tyfu 'y tu allan i'm gweithle heddiw, sef Ysgol Gyfun Bryncelynnog'. *Edrychais mewn llyfr, a dyna'r ffwng digamsyniol hwn, y mwyaf rhyfeddol o drawiadol o dylwyth y codau mwg. Mae o liw llwydfelyn, ac yn aeddfedu i ymagor fel seren a datgelu coden sborau gron*'. Mi ddywedais i mor debyg oedd y ffwng hwn i'w lun mewn llyfrau. Dywedodd Steve *'mor braf yw hi pan fydd ffwng yn ymddwyn ac yn ymddangos fel y mae i fod i wneud! Ni fyddant mor barod eu cymwynas bob tro! Roedd y twll hadau o fewn coler fwy golau, yn gywir fel yn y llyfrau*'.

Corynnod (Pryfed Cop)

Ym mis Hydref, fe yrrodd Rob Davies ataf lun o ryw goryn corffog hyfryd a welodd ar y ffordd ym Mrynffynnon. Ebostiais yn ôl: *'Dyna lun braf! Nid arbenigydd corynnod mohonof o bell ffordd, ond rwy'n digwydd adnabod hwn. Mae llw o gorynnod sy'n adeiladu gwe gron, gan gynnwys un sy'n gyffredin mewn gerddi. Ond corryn pedwar smotyn **Araneus quadratus** yw hwn, sy'n arbenigo yng nghyfeirioedd y glaswelltiroedd corsio a'r gweundiroedd. Darllenais yn rhywle taw'r corryn pedwar smotyn aeddfed yw'r coryn trymaf yng ngwledydd Prydain. A minnau'n cerdded ar draws safleoedd porfa rhos yn gynnar yn yr hydref, byddaf yn ceisio'n galed i osgoi cerdded drwy weoedd y creaduriaid hyn. Serch hynny, byddaf yn dod oddi yno bron bob tro gyda gwe yn sownd wrth ryw ran neu'i gilydd ohonof. (Gall hyn fod yn sioc ychydig oriau yn ddiweddarach pan fydd rhywun yn sylweddoli fod coryn mawr coch yn dringo i fyny'i ysgwydd.) Tybed a oedd yr un a welsoch chi wedi cyrraedd wyneb ffordd yn yr un modd hwn?' Dyma ateb Rob: 'Credaf fy mod wedi cerdded i mewn i'w we a minnau yn dilyn y ffordd uchaf i Dafarn y Brynffynnon, a bod y creadur wedi glynu wrth fy nhrywsus gwa. Cefais dipyn o sioc pan welodd mor fawr ydoedd!!! Glaswelltir corsio yw ochr y ffordd, cyn troi i mewn i'r goedwig*'.

Malwod

A Sue Westwood yn plannu allan y courgettes (yn ofer, fel mae'n digwydd). Cafodd hi hyd i ryw falwoden fach yn ei gwely llyisiau ym Meisgyn. Roedd ei chragen o siâp led-gonigol, â rhesen hir ynddi a gwrym amlwg ar ei throell allanol. **Hygromia cinctella** oedd hon, fe ymddengys. Daw'r rhywogaeth hon o wledydd Môr y Canoldir, ac mae hi wedi cytrefu yn ardaloedd Ynys Prydain lle mae'r tywydd yn fwynach. Dyma, o bosibl, y tro cyntaf iddi ymddangos yn Rhondda Cynon Taf.

Planhigion

Yn gynnar ym mis Mai mi gofnodais 20 **o degeirianau'r waun** yn blodeuo ym Mynwent Cefn Parc, Llantrisant. Mae Margaret Harding yn cadw llygad deallus ar flodau gwyllt Llantrisant. Soniodd hefyd am ymweliad a wnaeth ym mis Mai

*'Dyma fi'n mynd i Gefn Parc i weld tegeirianau'r waun yno. Roedd 11 ohonynt mewn un cae, ac ar ôl yr holl amser hyn weld tri yn y cae arall. Roedd un yn y cae uchaf, tua'r canol, ac un ger adran y babanod. Cawswn wybod fod yno fwy na'r un a welwn o hyd bob blwyddyn. Yr unig wahaniaeth oedd fod y gwair yn fyrrach. Roedd chwilio amdanynt yn llawer haws. Mae gwaith yn mynd â'r rhan fwyaf o'm hamser, a bach iawn o gyfle a gaf felly i fynd am dro. Dyna pam roeddwn i'n benderfynol o ddilyn a chwilio am y tegeirianau a'r briallu Mair, ond dim ond dechrau blodeuo oeddent'. Mae'r tomenni glo yng Nglofa'r Cwm ymhlith hoff lecynnau botanegol Margaret. Aeth hi ym mis Mehefin '... i Lofa'r Cwm Ddydd Sul diwethaf. Cerddais heibio i wal goncrïd, troi'r gornel, a gweld 13 o **degeirianau'r wenynen** ynghudd ymysg y gwair. Dyma'r tro cyntaf i mi'u gweld yma. Drwy drugaredd, roeddwn i wedi tynnu lluniau cyn i'm camera roi'r gorau iddi - roedd golwg eithaf pinc ar bob dim'. Rhoes hi adroddiad yn ddiweddarach yn yr haf ar y **cytref** gleision y gaeaf deilgrwn a ddarganfu y llynedd. 'Rhyw feddwl oeddwn i y byddech chi'n falch o newyddion da. Euthum yn ôl i Lofa'r Cwm, a darganfod llawer yn fwy eleni. Roedd yno dros 40 o blanhigion, yn uwch na'r lle roeddwn yn eu cofio, ac ar wahanol gamau a chyfnodau.*

Ym mis Mehefin, roedd Ann Bennett 'wedi cyfrif dros 30 o **degeirianau coch y gwanwyn**, a digonedd o **gwcwll y mynach** ar Gors y Pant yr wythnos ddiwethaf'. A Paul Denning yn cerdded ar lwybr troed yn agos i'w gartref, roedd ef 'wedi sylwi **ytbys meinddail** yn tyfu ar ST0661083935. *Dyma'r tro cyntaf i mi weld y rhywogaeth hon yn Rhondda Cynon Taf*'. Yn Rhondda Cynon Taf, mae ytbys meinddail yn weddol gyffredin yn ardal Aberdâr, ond yn llawer prinnach mewn mannau eraill.

Dyma sylwadau Marcus Middlehurst: *'Bu Maris yn gyffro i gyd wrth weld tegeirianau lliw hufen a melyn ar yr hen arglawdd rheilffordd ochr draw'r afon o'n tŷ ni ... Cyn bo hir fe fydd angen fforwyr gyda thwceïod i dorri'n ffordd drwy'r llwyni mieri sy'n tyfu'n gyflym dros bob un o'r holl lwybrau, a thros ein hen fannau agored hyd yn oed! - ond braf fydd cael y mwyar duon dros y Nadolig!*' Nid wyf yn sicr beth yn gywir yw'r tegeirianau lliw hufen a melyn hynny. Ceisio ymweld â'r safle yr haf nesaf er mwyn eu harchwilio,

Wel, dyna ddigon am y tro, mae'n debyg. Addawaf na fyddwn ni mor hwyr gyda'r Cylchlythyr nesaf. Diolch, fel arfer, am y cofnodion. Rhaid fy mod wedi hepgor rhaid o'ch cofnodion. Ymddiheuraf o waelod calon ymlaen llaw am bob dim a gollais drwy amryfusedd.

Hoffech chi fersiwn Saesneg o Gylchlythyr y Cofnodwyr? Croeso i chi roi gwybod i ni. Blwyddyn Newydd Dda!

Richard Wistow

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,

Llwyncastan,
Library Road,
Pontypridd,
CF37 2YA

Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk